## CYNGOR BRO PONTARFYNACH COMMUNITY COUNCIL

**Nos Iau 9 Ionawr 2020 am 7.30 y.h.**

**Thursday 9 January, 2020 at 7.30 p.m.**

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:
Meeting was held at Mynach School with the following present:

Jane Hopkins (Cadeirydd/Chairman);
Brython Davies, Robert Davies, Eluned Evans, Gareth Jones, Phil Lloyd, Robert Pratt;
Cynghorydd Sir/County Councillor Rhodri Davies.

**YMDDIHEURIADAU / APOLOGIES**

Rhodri Jenkins.

**1. MATERION PERSONOL**

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen i ddatgan buddiant os bydd sefyllfa'n codi.

**3. COFNODION**

**Cyfarfod ar 5 Rhagfyr, 2019**

Cadarnhawyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod. Cynigiwyd gan G. Jones ac eiliwyd gan R. Pratt.

**4. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION**

(a) Y Clerc i gyflwyno rhestr o'r eitemau sy'n parhau i fod angen sylw yn yr ardal yn y cyfarfod nesaf.

(b) Ad-leoli y polyn fflag o'r cae wrth ymyl yr Ysgol i ardd Ysgol Mynach. Caniatad wedi derbyn gan y perchennog tir i gael mynediad at y polyn. Cyswllt i'w wneud gan gontractwr lleol i symud y polyn.

(c ) Yr angen i dorri nol coed gyferbyn a Chapel Mynach sy'n amharu ar y golau stryd yn y lleoliad dan sylw yn parhau.

**5. CYLLID**

(a) Cyflwynodd y Clerc fantolen weithredol i'r Cynghorwyr.

**1. PERSONAL MATTERS**

**2. DECLARATION OF INTEREST**

Members were reminded of the need to declare an interest if a situation arises.

**3. MINUTES**

**Meeting of 5th December, 2019**

The minutes were confirmed as a true record of the meeting, which was proposed by G. Jones and seconded by R. Pratt.

**4. MATTERS ARISING FROM THE MINUTES**

(a) The Clerk to present a list of items that still require attention in the area at the next meeting.

(b) Relocate the flag pole from the field near the School to the garden of Ysgol Mynach. Consent obtained from the landowner to access the pole. Relevant arrangements to be made for a local contractor to move the pole.

(c) The need to fell trees opposite Capel Mynach which interferes with the street lighting at the location in question continues.

**5. FINANCE**

(a) The Clerk presented a working balance sheet to the Councillors.

(b) Anfoneb:
Talwyd anfoneb o £20 i Un Llais Cymru am gwrs Cyllid Cyngor Bro y mynychodd y Clerc. (Hanner yr anfoneb i'w dalu gan Gyngor Bro gyfagos ble mae cysylltiad gyda'r Clerc)
Cynigiwyd y taliad gan R. Davies ac eiliwyd gan B. Davies

(b) Invoice
An invoice of £20 was paid to One Voice Wales for a Community Council Finance course attended by the Clerk. (Half the invoice to be paid by a neighboring Community Council which the Clerc has contact with). Payment was proposed by R. Davies and seconded by B. Davies.

**Rhoddion:**

Cadarnhaodd y Clerc bod llythyr am geisiadau i'w hystyried wedi'u harddangos.
Derbyniwyd ceisiadau ac ystyriwyd y canlynol:

- £100.00 Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 (Cronfa leol Pontarfynach/Ponterwyd) yr ail-daliad a gytunwyd arno'r adeg yma llynedd.
- £100.00 Eisteddfod Cwmystwyth (I'w gyflwyno mis Ebrill/Mai ar gyfer Eisteddfod Medi 2020)
- £100.00 Ambiwlans Awyr
- £75.00 Y Ddolen
- £75.00 Clwb Ffermwyr Ifainc Trisant
- £50.00 Clwb Pel Droed Ieuenctid Llanilar
- £150.00 Ysgol Gynradd Mynach tuag at gronfa offer cyfrifiadurol.
- £75.00 'Ceredigion Schools Rugby Union' tuag at gostau taith Rygbu i'r Eidal: Un o fechgyn yr ardal wedi cael ei ddewis i fod yn rhan o'r daith.

Yn ychwanegol derbyniwyd cais gan yr Urdd tuag at Eisteddfod yr Urdd 2020. Cytunwyd i beidio a chyfrannu gan gadw at sefydliadau lleol.

**Donations**:

The Clerk confirmed that a letter inviting donation requests had been displayed. The following requests were received and considered:

- £100.00 Ceredigion National Eisteddfod 2020 (Pontarfynach/ Ponterwyd local appeal) 2nd donation of that decided upon last year.
- £100.00 Eisteddfod Cwmystwyth (next financial year to be presented May/June for the Eisteddfod in September 2020)
- £100.00 Air Amubulance
- £75.00 Y Ddolen
- £75.00 Trisant Young Farmers Club
- £50.00 Llanilar Junior Football Club
- £150.00 Mynach Primary School towards computer equipment appeal.
- £75.00 'Ceredigion Schools Rugby Union' towards the costs of a Rugby trip to Italy. A local boy has been choosen for the tour.

In addition a request was received by the Urdd towards the Urdd Eisteddfod 2020. It was decided not to donate but to keep donations to local organisations.

**6. GOHEBIAETH**

(a) Llythyr o werthfawrogiad am y nawdd ariannol gan Gangen Aberystwyth Lleng Brydeinig.
(b) Cais Grant ar gyfer diffibriliwyr yn yr ardal wedi danfon i Cronfa Grant Gefn Croes ble y trafodir y cais yn eu cyfarfod nesaf ym mis Mai.

**6. CORRESPONDENCE**

(a) Letter of appreciation for the financial contribution from the British Legion Aberystwyth Branch.
(b) Grant application for defibilators in the area sent to Cefn Croes Wind Farm Grant where the application will be discussed at the next meeting in May.

(c) Cais am swyddog o 'BroAber360': gwasanaeth Digidol newydd Cymraeg i gyflwyno'r gwasanaeth i'r Cyngor Bro. Gwahoddir i gyfarfod yn y dyfodol agos.

(ch) Gohebiaeth wrth Mynyddoedd Cambrian Mountains am gydweithrediad i ddarganfod taith gerdded leol. Cytunwyd i Rob Davies a Gareth Jones i ymateb yn uniongyrchol.

(c) Request for officer from 'BroAber360': a new Welsh language Digital service to introduce the service to the Community Council. Invitation for officer to attend a meeting in the near future.

(d) Correspondence from Cambrian Mountains about co-operation in finding a relevantg local walk. It was agreed for Rob Davies and Gareth Jones to respond directly.

**7. UNRHYW FATER ERAILL**

(a) Nodir fod y gwaith o adnewyddu Capel Mynach ar gyfer adeilad cymunedol wedi dechrau.

(b) Draeniau wedi blocio yng Nghwmystwyth gan achosi llif yn y ffyrdd sy'n achosi niwed i gerbydau: o Briwnant Cottage i Bont Penbont ac hefyd rhiw ysgoldy heubio'r hysbysfwrdd tuag at y gornel islaw.

(c) Draen wedi suddo wrth ymyl cornel ger Ysgol Mynach.

(ch) Bin halen ar y ffordd o Bontarfynach i Gwmystwyth angen ail-osod/adnewyddu.

(d) Cytunwyd i gais yr aelod lleol am lythyr o gefnogaeth wrth Gynghorau Bro ardal Melindwr i ofyn i'r Cyngor Sir edrych i weld beth gellir gwneud am safle Gwesty Dyffryn Castell o ran edrychiad y safle a sicrhau nad yw'r adeiladau'n mynd yn adfeilion.

**7. ANY OTHER MATTER**

(a) Renovations of Mynach Chapel as a community building has begun.

(b) Blocked drains at Cwmystwyth causing flow in the roads causing damage to vehicles: from Briwnant Cottage to Penbont Bridge and also a schoolhouse hill past the skylight towards the corner below.

(c) A sunken drain near a corner near Ysgol Mynach.

(d) Salt bin on Devil's Bridge to Cwmystwyth road needs re-installation / replacement.

(e) The local member's request for a letter of support from the Melindwr area Community Councils to ask the County Council to look into what could be done about the Dyffryn Castell Hotel site in terms of the appearance of the site and to ensure that the buildings were not going into ruins.

**8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Iau 13eg Chwefror, 2020 yn Ysgol Mynach.

8. **DATE OF NEXT MEETING**

The next meeting to be held on Thursday 13th February, 2020 at Mynach School.